# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth

## Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: 18/10/16

Lleoliad: Ystafell Giniawa 2

Yn bresennol:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Suzy Davies AC | Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth |
| Jill Sweet ar ran Caroline Jones AC | |
| Tom Smith | Intern gyda Suzy Davies AC |
| Craig Lawton | Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth |

Ymddiheuriadau:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Neil Hamilton AC | |
| Neil McEvoy AC | |
| Paul Davies AC | |
| Eluned Morgan AC | |
| Hannah Blythyn | |
| Michael Deem neu Matthew Ford | |
| Dr Dai Lloyd AC | |

Crynodeb o'r cyfarfod:

Croesawodd Suzy Davies yr aelodau a oedd yn bresennol.

Gan nad oedd llawer yn bresennol, trafododd SD syniadau a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod,  gan gynnwys:

1. Trefnu bod Cynghrair Twristiaeth Cymru, Cymdeithas Lletygarwch Prydain a grwpiau tebyg yn rhoi tystiolaeth
2. Cysylltu â phenaethiaid grwpiau/cyrff twristiaeth rhanbarthol er mwyn clywed eu barn
3. Bod Aelodau'r Cynulliad yn ystyried pa feysydd neu faterion yr hoffent eu harchwilio yn y flwyddyn i ddod ac unrhyw unigolion yr hoffent iddynt gymryd rhan a rhoi tystiolaeth

Awgrymodd Craig Lawton y gellid cydweithio gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach rhywbryd yn y dyfodol os yw'n ystyried materion twristiaeth.

Roedd SD yn cytuno:

Dywedodd CL fod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf gan Gynghrair Twristiaeth Cymru ar ei flaenoriaethau wrth symud ymlaen. Bydd yn anfon y wybodaeth hon at yr aelodau.

Nid oedd unrhyw fater arall.

Cadarnhaodd SD y bydd yn cysylltu â Chynghrair Twristiaeth Cymru ynghylch y cyfarfod nesaf gan wahodd y corff a'i aelodau i fod yn bresennol.

Daeth SD â'r cyfarfod i ben.